**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1387
Ein cyf JH-/10436/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd, lle gwnaethoch gyfeirio at ddeiseb P-06-1387 mewn perthynas â darparu cymorth dyngarol i Gaza.

Lansiodd Pwyllgor Argyfyngau Trychinebau Cymru (DEC Cymru) Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol DEC ddydd Iau 17 Hydref. Ar ddiwrnod y lansiad, roedd Llywodraeth Cymru yn falch o roi rhodd o £100,000 i'r apêl a fyddai yn darparu cymorth dyngarol i bobl yn Gaza, Libanus a'r rhanbarth ehangach sydd angen bwyd, lloches a gofal meddygol ar frys ar hyn o bryd. Hyd yma, mae dros £1.7 miliwn wedi cael ei roi gan bobl Cymru i'r apêl hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bryderu'n fawr am y gwrthdaro parhaus a'r argyfwng dyngarol yn Gaza. Mae gormod o fywydau diniwed yn cael eu colli tra bod y rhyfel hwn yn parhau. Er nad yw polisi tramor wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi galw dro ar ôl tro am seibiau dyngarol, yn ogystal â chefnogi galwadau am gadoediad. Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol y safbwyntiau hyn ar 01 Mai 2024 ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi lles ein cymunedau Iddewig a Mwslimaidd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y tymor hwy, mae swyddogion yn meithrin cysylltiadau â gweithwyr gofal iechyd a grwpiau o Gymru fu yn weithgar ym maes cymorth dyngarol a meddygol yn y rhanbarth gyda'r bwriad o gyflwyno cynigion ar gyfer ymateb cydgysylltiedig Cymreig pe bai cadoediad parhaol.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip